# Cofnodion

## Is-grŵp Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Dydd Llun 20 Ebrill 2020**
Cyfarfod dros Skype

### 1) Croeso ac Ymddiheuriadau *(Cadeirydd)*

1a Daeth ymddiheuriadau i law gan:
Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru
Matt Lowe, CNC
Geri Mills, CNC

1b Cyflwyniadau
Presenoldeb wedi'i gadarnhau:
Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)
Dennis Matheson, TFA
Steven Bradley, DCWW
Aled Jones, UAC
Creighton Harvey, FfPSG
Bob Vaughan, CNC
Sarah Hetherington, CNC
Marc Williams, CNC
Nichola Salter, CNC
Katy Simmons, CNC
Andrew Chambers, LIC
Spencer Conlon, LIC
James Ruggeri, HCC
Delyth Lewis-Jones, AHDB
Jamie McCoy, AHDB
Kate Snow, United Utilities
Liz Franks, Hafren Dyfrdwy
Fraser McAuley, CLA
Lee Price, Menter a Busnes
Stephen Marsh-Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)

1c Datganiad o Fuddiant
Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag Eitemau ar yr Agenda.

### 2) Cofnodion y cyfarfod ar 16 Mawrth 2020 a phwyntiau gweithredu heb eu cwblhau

Nid oedd y cofnodion wedi cael eu cwblhau cyn y cyfarfod, ond byddent yn cael eu dosbarthu i'r grŵp cyn gynted â phosibl wedi iddynt gael eu gorffen.

***Pwynt Gweithredu 1: Marc Williams i ddosbarthu cofnodion y cyfarfod ar 16 Mawrth i'r Is-grŵp wedi iddynt gael eu cwblhau.***

***Pwynt Gweithredu 2: Unrhyw sylwadau/ychwanegiadau i gofnodion 16 Mawrth i gael eu hanfon at Marc Williams (Pawb)***

## 3) Diweddariad Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Spencer Conlon ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru, sef ei bod, ar hyn o bryd, yn canolbwyntio ei holl egni ar oblygiadau'r pandemig Coronafeirws i'r sector amaethyddol yng Nghymru.

Cafwyd datganiad gan y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Ebrill 2020 ynghylch llygredd amaethyddol, a dywedodd y byddai'r rheoliadau drafft yn cael eu cyhoeddi ar wefan LlC. Roedd y rheoliadau drafft er gwybodaeth yn unig, ac nid oeddent wedi cael eu gosod. Roedd y Gweinidog yn ymwybodol iddi wneud rhai ymrwymiadau i amlygu cynnydd, ond nid oedd penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud eto. Roedd hi'n bwriadu gweithredu ar ôl y pandemig, rhywbeth a oedd yn ofynnol oherwydd problemau a oedd yn parhau ynghylch llygredd amaethyddol. Byddai'r cynulliad hefyd yn cyflawni lefel o graffu cyn i'r rheoliadau gael eu gosod, sef y broses arferol i'w dilyn.

Mynegodd Dennis bryderon ynghylch tenantiaid yn methu cydymffurfio â'r rheoliadau drafft, a holodd am gyfnodau pontio ac eithriadau, ynghyd â'r effaith ar Gynllun y Taliad Sylfaenol. Byddai'r cwestiynau hyn yn dod yn fwy eglur pan fyddai'r Gweinidog wedi gwneud y penderfyniad. Byddai yna gyfnodau pontio ar waith, a byddai unrhyw wybodaeth ychwanegol yn dod ar gael pan fyddai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud. Mynegodd Creighton bryderon fod yna elfen o ansicrwydd o hyd, a bod llygredd amaethyddol yn parhau. Dywedodd y gallasem fod yn yr un sefyllfa ym mis Ionawr y flwyddyn ddilynol pe na fyddai unrhyw beth yn cael ei gyflwyno.

Gofynnodd Aled Jones, UAC, a fyddai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn cael ei ailystyried gan nad oedd yn cwmpasu'r holl opsiynau a oedd yn cael eu hamlygu. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'r RIA yn cael ei adnewyddu a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r rheoliadau pan fyddent yn cael eu gosod.

Dywedodd Spencer fod y rheoliadau drafft yn gymesur mewn perthynas â'r gweithgarwch, yn enwedig o ran cynhyrchu slyri ar ffermydd a'r risg a oedd yn gysylltiedig â'r gweithgarwch hwnnw. Byddai'r ffermydd a oedd yn cynhyrchu fawr ddim slyri yn rhai risg is, heb lawer o waith papur ynghlwm wrthynt. Ar y llaw arall, roedd y ffermydd helaethach hynny a oedd yn cynhyrchu mwy o slyri, a chanddynt lai o dir i wasgaru'r slyri arno, mewn mwy o berygl, a byddai'r rheoliadau drafft, o ganlyniad, yn fwy perthnasol iddynt. Os oedd ffermydd yn bodloni'r rheoliadau cyfredol, byddent ar y trywydd iawn i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd, ond byddai angen i'r rhai nad oeddent yn bodloni'r rheoliadau cyfredol wneud mwy. Ni fyddai hyn yn cael effaith fawr ar bob busnes ffermio ledled Cymru, a dylid cyfathrebu â'r busnesau ffermio i leihau'r ofn a'r pryder i'r diwydiant. Tynnodd Creighton sylw at y ffaith fod yna nifer o

erthyglau ysgrifenedig ar gael i'r cyhoedd a oedd yn datgan bod y rheoliadau a oedd i gael eu cyflwyno yn rhai llym, ac y byddent yn rhoi baich mawr ar bob ffermwr. Er mwyn lleihau'r ofn yn y gymuned ffermio, dylai LIC fynd ati i gyfathrebu â'r Undebau Ffermio a'r ffermwyr i ddatgan nad oedd hyn yn wir.

Tynnodd Creighton sylw at lythyr a anfonwyd gan ddeuddeg Aelod Seneddol Ceidwadol, a oedd yn awgrymu iddo gael ei ysgrifennu gan bob un o Grŵp Ceidwadwyr Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin, pan nad oedd hyn yn wir. Roedd y llythyr yn nodi bod CNC wedi beirniadu'r rheoliadau drafft a gyhoeddwyd gan y Gweinidog. Gofynnodd Creighton a oedd hyn yn wir. Dywedodd Bob Vaughan nad oedd CNC wedi beirniadu’r cynigion ond ei fod wedi darparu sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Lywodraeth Cymru.

Roedd LIC yn bwriadu i'r Is-grŵp fod yn rhan o'r gwaith o lunio'r canllawiau a fyddai'n cyd-fynd â'r rheoliadau drafft, ond roedd yn anodd rhag-weld ar y pryd sut olwg a fyddai ar y canllawiau nes y byddai'r Gweinidog wedi gwneud y penderfyniad terfynol.

Mynegodd Dennis bryderon ynghylch y prosiect llaeth a fferm gyngor yr oedd yn ofynnol iddi gynyddu'r storfa slyri i 4 mis, a oedd wedi'i eithrio ar y pryd, erbyn dyddiad penodol. Ni allai'r Cyngor Sir na'r ffermwr fforddio codi adeiladwaith newydd. Roedd ganddo bryderon fod ffermydd yn cael eu cynghori i wneud newidiadau i'r seilwaith i fodloni'r rheoliadau cyfredol, ond y gallai hyn newid pe byddai'r rheoliadau drafft yn cael eu cyflwyno. Byddai CNC yn ymchwilio i hyn, ond amlygwyd bod adeiladweithiau eithriedig cyfredol yn parhau i fod yn eithriedig oni bai eu bod mewn risg o achosi llygredd i ddyfroedd rheoledig.

Gofynnodd Fraser gwestiwn ynghylch a fyddai penderfyniad y Gweinidog yn cael unrhyw effeithiau ar ddatblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Cadarnhaodd Spencer fod y llinellau cyfathrebu rhwng y tîm amaethyddol a thîm yr CFfC yn LIC yn agos iawn, ac y byddai gan dîm yr CFfC wybodaeth lawn.

Roedd Cyswllt Ffermio wedi ehangu ac ymestyn ei weithgarwch cymorthfeydd, a ariennid yn llawn, fel ei fod yn cynnwys pob pwnc a mater technegol a busnes a allai fod gan y sectorau coedwigaeth a ffermio mewn perthynas â'r rheoliadau drafft a COVID-19. Mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, roedd cyngor a chymorth ar seilwaith ar gael yn achos unrhyw bryderon a oedd gan ffermwyr ar y pryd, gan gynnwys pennu cynllun ar gyfer y fferm. Roedd nifer o ymholiadau wedi dod i law Cyswllt Ffermio yn sgil COVID-19 am fod llawer wedi arallgyfeirio eu busnesau, a'r rheiny bellach mewn anawsterau. Roedd Cyswllt Ffermio yn ymdrin â nifer o bynciau, ac os oedd ffermwyr yn profi unrhyw broblemau, yna dylent gysylltu â Cyswllt Ffermio i gael mynediad i wasanaeth y cymorthfeydd.

***Pwynt Gweithredu 3: Unrhyw ohebiaeth a manylion gan Cyswllt Ffermio ynghylch y gwasanaethau'r cymorthfeydd i'w dosbarthu i'r Is-grŵp (Lee Price, Menter a Busnes).***

Mynegodd Stephen Marsh-Smith bryderon nad oedd y Parthau Perygl Nitradau (NVZ) wedi gwneud fawr ddim gwahaniaeth mewn rhai lleoedd, ac y dylai fod yn angenrheidiol i CNC ymchwilio i'r achos pam. Bob pedair blynedd, o dan y Gyfarwyddeb Nitradau ac Erthygl 10, roedd LIC yn cyhoeddi gwybodaeth i'r Comisiwn Ewropeaidd a oedd yn cynnwys y Cynlluniau Gweithredu a'r hyn yr oeddent wedi'i gyflawni. Un o'r anawsterau o ran gwella ansawdd dŵr oedd yr amser yr oedd yn ei gymryd i fesur unrhyw newidiadau wedi i gamau gael eu rhoi ar waith ar lawr gwlad. Tynnodd Bob Vaughan sylw at y ffaith y byddai'r rheoliadau’n helpu i leihau llygredd amaethyddol, ond bod yna linynnau eraill gwahanol, a oedd wedi'u nodi yn yr

Adroddiad Dros Dro, i fynd i’r afael â’r broblem. Dyna oedd prif bwrpas sefydlu'r grŵp hwnnw.

***Pwynt Gweithredu 4: Ystyried a rhannu'r dysgu o weithredu'r dynodiad NVZ blaenorol er mwyn helpu i gefnogi ffermwyr trwy'r broses weithredu pe byddai'r rheoliadau newydd yn cael eu mabwysiadu (Pawb)***

## 4) Diweddariad ar COVID-19 a'r Problemau Cysylltiedig

Rhoddodd Bob Vaughan, CNC, ddiweddariad i'r grŵp ar y materion cyfredol a oedd yn wynebu'r sector amaethyddol oherwydd COVID-19. Roedd llawer o fusnesau a marchnadoedd wedi cau, ac roedd hyn wedi cael effaith fawr ar gynhyrchwyr amaethyddol gwahanol. Cafwyd problemau o ran bod ffermydd wedi cyflenwi ambell fusnes yr effeithiodd COVID-19 arnynt, gan olygu na chafodd y cynnyrch ei gasglu. Roedd yna hierarchaeth wastraff ar waith, a gwasgaru ar y tir oedd y dewis olaf un. O dan eithriad gwastraff U10, os nad oedd llaeth yn cael ei gasglu o'r fferm, yna rhaid oedd gwanhau'r llaeth gwastraff hwnnw â chyfaint cyfartal, neu fwy, o slyri neu ddŵr cyn ei wasgaru ar dir amaethyddol yn y man cynhyrchu. Hefyd o dan eithriad gwastraff U10, roedd CNC wedi llacio'r rheolau cyfredol ar gyfer ffermwyr o ran amlder gwasgaru llaeth gwanedig ar y tir, a hynny i bob tair wythnos yn hytrach na phedair wythnos. Roedd canllawiau wedi cael eu cyhoeddi ar wefan CNC. Nid oedd hyn yn berthnasol i weithfeydd prosesu, ac roedd ar CNC eisiau pwysleisio na ddylid gwastraffu unrhyw gynnyrch a oedd yn addas i'w fwyta gan bobl, a'i bod yn ofynnol chwilio am farchnadoedd amgen.

Amlygodd Delyth Lewis-Jones y ffaith bod prisiau llaeth wedi plymio o ganlyniad i COVID-19 a bod llawer o waith yn cael ei wneud gan y diwydiant i gadw llaeth yn hyfyw. Roedd y sector llaeth yn gweithio gyda'r gweithfeydd prosesu. Roedd prisiau cig wedi gostwng yn ddramatig hefyd. Roedd yr AHDB yn gweithio gyda'r Undebau Ffermio i rannu gwybodaeth, a dylai LIC fod yn ymwybodol o'r materion hyn.

Holodd Dennis am Gynllun Plaladdwyr DCWW, a chadarnhawyd bod y dyddiad cau wedi cael ei ymestyn ac y byddai Steven Bradley yn rhannu gwybodaeth â'r Is-grŵp. Cafwyd cwestiwn ynghylch y fenter gwaredu plastig a oedd wrthi'n cael ei sefydlu gan LIC, ond nid oedd unrhyw fanylion na diweddariadau pellach ar gael.

***Pwynt Gweithredu 5: Unrhyw wybodaeth neu faterion yn ymwneud â COVID-19, gan bob sefydliad, i'w trosglwyddo i Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Pawb).***

***Pwynt Gweithredu 6: Steven Bradley i rannu manylion Cynllun Plaladdwyr DCWW â'r Is-grŵp.***

***Pwynt Gweithredu 7: Andrew Chambers i ymchwilio i'r fenter gwaredu plastig a oedd yn cael ei sefydlu gan LIC, a darparu gwybodaeth i'r Is-grŵp.***

## 5) Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr Is-grŵp yn y dyfodol

- Dydd Llun 18 Mai 2020, Cyfarfod dros Skype

***Pwynt Gweithredu 8: Os nad oeddent wedi cael dyddiadau'r dyfodol ar ffurf***

***gwahoddiadau calendr, roedd yn ofynnol iddynt roi gwybod i Zoe Henderson neu Marc Williams. (Pawb)***

## 6) Diweddariad ar weithgareddau dyddiadur perthnasol neu ddigwyddiadau wedi'u canslo/gohirio

Tynnodd Nik Salter sylw at y ffaith bod gweminarau yr AHDB yn addysgiadol iawn mewn perthynas â'r hyn yr oedd y diwydiant yn ei wneud a'r cymorth a oedd ar gael ar gyfer ffermwyr. Cadarnhaodd Jamie McCoy y byddai yna weminar arall i'r ffermwyr ei gwylio ddydd Iau 23 Ebrill.

***Pwynt Gweithredu 9: Dolen i weminarau blaenorol yr AHDB i'w dosbarthu i'r Is-grŵp (Nik Salter, CNC).***

***Pwynt Gweithredu 10: Jamie McCoy i ddosbarthu manylion y weminar nesaf ar gyfer ffermwyr i'r Is-grŵp.***

## 7) Unrhyw fater arall

Roedd Zoe wedi darllen erthygl ddiddorol a ysgrifennwyd gan yr NFU ar hau cnwd o dan indrawn a chadw'r pridd mewn caeau. Fodd bynnag, tynnodd Creighton sylw at y ffaith bod ardaloedd helaeth o indrawn yn cael eu tyfu yng Ngorllewin Cymru heb gnwd yn cael ei hau o dan yr indrawn, gan olygu bod pridd yn dianc i gyrsiau dŵr ac ar y ffyrdd.

Dywedodd Dennis nad oedd yr Ymgynghoriad Aer Glân yn sôn am unrhyw ran o'r gwaith a wnaed gan Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Roedd yn tynnu sylw at y materion hyn yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, ac roedd yn hapus i'r rhain gael eu dosbarthu i'r grŵp. Roedd camau gweithredu'r Is-grŵp yn canolbwyntio ar lygredd dŵr a slyri, ond gall y rhain gael effeithiau tebyg ar ansawdd aer, a dylid rhoi ystyriaeth i hyn.

***Pwynt Gweithredu 11: Dosbarthu sylwadau Dennis Matheson ar yr Ymgynghoriad Aer Glân i'r Is-grŵp (Marc Williams, CNC).***

***Pwynt Gweithredu 12: Ychwanegu'r Ymgynghoriad Aer Glân yn eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Mai (Marc Williams, CNC).***

Cafwyd trafodaeth ar ddigwyddiadau llygredd amaethyddol a oedd wedi digwydd yn 2020, a byddai Marc Williams yn dosbarthu graff wedi'i ddiweddaru i'r Is-grŵp ar ddigwyddiadau llygredd amaethyddol a gadarnhawyd yn achos dŵr. Adroddodd Creighton am nifer o ddigwyddiadau ym mis Mawrth, ac roedd ganddo bryderon nad oedd canolfan gwsmeriaid CNC yn darparu cyfeirnodau i gwsmeriaid. Byddai Bob Vaughan yn ymchwilio i'r weithdrefn yn CNC ac yn cael gwybodaeth amdani. Mynegodd Stephen Marsh-Smith bryderon nad oedd data llygredd gwasgaredig yn cael eu cipio. Tynnwyd sylw at y ffaith ei bod yn anodd mesur a chipio'r holl wybodaeth hon. Dim ond cipio adroddiadau am lygredd yma ac acw yr oedd y system WIRS, y rhoid gwybod amdanynt gan y cyhoedd. Soniodd Stephen ei fod, yn un adroddiad, wedi cipio gwybodaeth am lygredd gwasgaredig a ffwng carthion mewn ffosydd mewn un dalgylch. Dywedodd CNC ei bod yn bwysig adrodd am y digwyddiadau hyn ar y pryd, a hynny gan ddefnyddio'r rhif adrodd 24 awr, gan na ellid cipio gwybodaeth a gynhwysid mewn adroddiadau. Roedd cyfathrebu mewnol yn allweddol i sicrhau bod yna gysondeb o ran

darparu cyfeirnodau, ac felly hefyd gyfathrebu allanol er mwyn i'r cyhoedd barhau i adrodd am ddigwyddiadau. Katy Simmons oedd y Swyddog Cyfathrebu newydd, ac roedd bellach yn aelod o'r grŵp. Hoffai'r Cadeirydd gael trafodaeth ar y cynllun cyfathrebu yng nghyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Mai.

***Pwynt Gweithredu 13: Bob Vaughan i ymchwilio i'r weithdrefn o ddarparu cyfeirnodau i'r cwsmer sy'n adrodd am ddigwyddiad, ac i ddarparu eglurhad ar y weithdrefn honno.***

***Pwynt Gweithredu 14: Ychwanegu Cynllun Cyfathrebu at yr agenda ar gyfer cyfarfod Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Mai (Marc Williams, CNC).***

**Daeth y cyfarfod i ben.**